

## CYNGOR GWYNEDD

**Cofnodion drafft o gyfarfod rhif 22 Grŵp Cyswllt Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau a gynhaliwyd ar 30 Mai 2012 (yn cychwyn am 7pm) ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog.**

### **Yn bresennol:**

Cyng. Caerwyn Roberts (CR) Awdurdod Lleol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Cadeirydd)

Alison Hargrave (AH)	Swyddog ACA PLAS
Dafydd Roberts (DR)	AP - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Mike Parry (MP)	Twristiaeth
Bill Miller-Jones (BMJ)	Arall – Plymiwr a pherchennog cwch
Rowland Sharp (RS)	Arall
Rhys Jones (RJ)	AP - Cyngor Gwynedd
David Roberts (DavR)	Awdurdod Lleol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyng. Ray Quant (RQ)	Awdurdod Lleol – Ceredigion
Ian Roberts (IR)	Ffermio
Lucy Kay (LK)	AP - CCGC
Bob Lowe (BL)	Hamdden
Mike Bowyer (MB)	Arall – Archaeoleg
Bill Bracewell (BB)	Hamdden – Partneriaeth Aberdyfi
Alan Gayden (AG)	Cyngor Cymuned – Dyffryn Ardudwy a Thal y Bont
Nia Jones (NJ)	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Cyng. Gareth Roberts (GR)	Awdurdod Lleol – Cyngor Gwynedd
Dylan Griffiths (DG)	Cyngor Gwynedd
Nick Tomos (NT)	CCGC
Sion Williams (SW)	Pysgota Masnachol
Iwan Edgar (IE)	Arall
Jen Kelly (JK)	Swyddog ACA Bae Ceredigion
Colin Evans (CE)	Pysgotwr Lleol

(PLAS – Pen Llŷn a'r Sarnau)

(AP - Awdurdod Perthnasol)

### **Cyflwyniad**

Croesawodd CR bawb i'r cyfarfod. Cyflwynodd pawb eu hunain gan fod ychydig o wynebau newydd yn bresennol.

### **1. Ymddiheuriadau:**

Glynne Roberts (GR)	Pysgota Masnachol - Cymdeithas Pysgotwyr Gyda'r Glannau Llŷn
Jilly Whipp (JW)	Bywyd Gwyllt
Helen Bickell (HB)	Bywyd Gwyllt
Huw Davies (HD)	AP - Cyngor Gwynedd

### **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

2.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

### 3. Materion yn codi

- 3.1 Eitem 3.5 (AH i anfon copi o'r e-bost a dderbyniwyd gan Magnox ynglŷn â Thrawsfynydd i BMJ). ***Gweithred wedi'i chwblhau.***
- 3.2 Eitem 4.1 (Aelodau'r Grŵp Cyswllt i hysbysu AH am unrhyw grwpiau neu unigolion a ddylai fod yn rhan o'r prosiect morwellt): ***Gweithred wedi'i chwblhau.***
- 3.3 Eitem 4.1 (Aelodau'r Grŵp Cyswllt i hysbysu AH am unrhyw grwpiau neu unigolion a ddylai fod yn rhan o'r prosiect Cranc Manegog Tseiniaidd): ***Gweithred wedi'i chwblhau.***
- 3.4 Eitem 4.1 (Aelodau'r Grŵp Cyswllt i edrych ar wefan Mapio Gweithgarwch Cymru a nodi unrhyw bryderon neu syniadau a'u hanfon i AH): Dim sylwadau wedi'u derbyn. ***Gweithred wedi'i chwblhau.***
- 3.5 Eitem 4.1 (AH i gysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â chasglu sbwriel ar draeth Aberdaron): Roedd Cyngor Gwynedd yn casglu bagiau o sbwriel pan oedd gwirfoddolwyr yn rhoi gwybod iddynt am ddigwyddiad glanhau traethau. Nid oeddynt yn glanhau traethau'n rheolaidd rhwng diwedd mis Medi a mis Mawrth. AH wedi anfon llythyr at IR ynglŷn â'r mater hwn. ***Gweithred wedi'i chwblhau.***
- 3.6 Eitem 6 (AH i anfon cyflwyniad amddiffyn yr arfordir Borth i aelodau'r Grŵp Cyswllt ar e-bost a chopi caled i AG): ***Gweithred wedi'i chwblhau.***

### 4. Diweddariad gan y Swyddog ACA

#### Diweddariad ar y gwaith a wnaed rhwng mis Hydref 2011 a mis Mai 2012

Cafwyd amlinelliad gan AH ar y gwaith a gyflawnwyd ers y cyfarfod diwethaf:

- Dau gyflwyniad
- Wyth ymweliad ysgol (yn ogystal ag ymweliadau *Cool Seas*)
- Wedi cynhyrchu taflen ddigwyddiadau 2012
- Roedd digwyddiadau 2011 wedi bod yn llwyddiannus, roeddynt yn cynnwys teithiau tywys, diwrnodau hwyl ar y traeth, gweithdai celf morol
- Wedi mynychu nifer o sioeau yn cynnwys – Sioe Nefyn, Sioe Caernarfon, *Botanical beats* a'r Wyl Bwyd Môr
- Wedi trefnu a chynnal sesiwn hyfforddi ar gyfer rhywogaethau ymwithiol nad ydynt yn gynhenid sef y Cranc Manegog Tseiniaidd, gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
- Wedi cynhyrchu nifer o ddatganiadau i'r wasg ac erthyglau sy'n ymwneud â'r ACA
- Deunydd hyrwyddo ACA wedi'i ddosbarthu
- Wedi creu rhifyn 9 o'r newyddlen ac wedi'i ddosbarthu i dros 600 o fannau
- Wedi diweddarau gwefan ACA gydag eitemau newyddion a digwyddiadau. Adran prosiectau newydd wedi'i hychwanegu
- Wedi cyfrannu tuag at gynllunio morol o fewn Cyngor Gwynedd.
- Wedi mynychu nifer o gyfarfodydd i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth
- Wedi cyfarfod â Sefydliad Gwylwyr y Glannau Cenedlaethol Porthdinllaen – roedd dolen i wefan ACA, a byddai AH yn cael gwybod pe bai rhyw greadur gwyllt diddorol yn cael ei weld.
- Wedi diweddarau'r Cynllun Rheoli. 60% o'r cynlluniau gweithredu pwnc wedi'u diweddarau ac yn barod i'w hanfon allan.
  - Gwaith wedi'i gwblhau:

- Porthladdoedd, harbws, marinas a llongau
- Hanner y prosiect ecsploetio adnoddau byw
- Ecsploetio adnoddau anfyw
- Ansawdd dŵr, llygredd a gwaredu gwastraff
- Gweithgareddau eraill – roedd hyn yn cynnwys archaeoleg, coedwigaeth, gweithgareddau milwrol, rhywogaethau nad ydynt yn gynhenid ac ati.
- Gwaith sydd ar ôl i'w gwblhau:
  - Hanner y prosiect ecsploetio adnoddau byw
  - Hamdden
  - Adeiladu strwythurau a chyfleusterau arfordirol a morol

Roedd AH hefyd wedi bod yn gweithio ar nifer o brosiectau i helpu gweithredu cynllun rheoli'r ACA:

### **Prosiect Troi Llanw:**

Adnabuwyd sbwriel fel un o brif flaenoriaethau PLAS. Sefydlwyd y prosiect hwn i gynorthwyo i oresgyn y broblem. Roedd nifer o ymgyrchoedd glanhau traethau adnabyddus wedi'u cynnal ar y cyd â sefydliadau eraill, a dilynwyd y rhain gan ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth megis teithiau pyllau glan môr i godi ymwybyddiaeth am yr ACA. Roedd y prosiect hwn bellach wedi'i gwblhau. Roedd yr adroddiad terfynol nawr ar gael. Cynhaliwyd cystadleuaeth gydag ysgolion lleol i lunio poster i annog pobl i beidio â thafu ysbwriel. Cafwyd dau enillydd ac oherwydd safon uchel y gwaith defnyddiwyd gwaith y rhai na ddaeth i'r brig i greu cyfres o sticeri.

### **Rheoli gwlâu morwellt ym Mhorthdinllaen**

Roedd y morwellt ym Mhorthdinllaen yn elfen o nodwedd wastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanw'r ardal. Roedd cyflwr y nodwedd hon yn anffafriol yn y lleoliad hwn oherwydd angori. Roedd y prosiect hwn yn edrych ar ffyrdd o reoli'r morwellt mewn ffordd fyddai'n parhau i alluogi defnyddwyr i ddefnyddio'r safle ond a oedd hefyd yn gwarchod y morwellt ac yn dychwelyd y gwastadeddau llaid a thywod i gyflwr ffafriol. Y gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn:

- Adroddiad cychwynnol – roedd hwn yn edrych ar opsiynau rheoli a chynnal adolygiad o'r llenyddiaeth a darparu trosolwg o'r sefyllfa ar hyn o bryd ac yn y gorffennol ym Mhorthdinllaen. Roedd yr adroddiad hwn ar gael.
- Wedi sefydlu grŵp llywio – Swyddog ACA, CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, *Royal Yachting Association* a Chymdeithas Pysgotwyr Llŷn.
- Ymgysylltu â budd-ddeiliaid – roedd hyn yn rhan hanfodol o'r prosiect. Roedd hyn wedi bod yn rhwystr anferthol mewn nifer o brosiectau. Roedd cynllun ymgysylltu wedi'i lunio. AH eisoes wedi siarad â'r *Royal Yachting Association* a Chymdeithas Pysgotwyr Llŷn ac roedd y ddau yn gefnogol ac wedi ymuno a'r grŵp llywio.
- Roedd detholiad o ddeunydd hyrwyddo wedi'i gynhyrchu, nodyn briffio, poster, mat diodydd a thaflen.
- Roedd cwmni o'r enw SEACAMS yn ymgymryd â gwaith penodol ym Mhorthdinllaen ar gyfer y prosiect hwn. Nid oedd hyn ar draul yr ACA. Y ddau brosiect:
  - Prosiect ecolegol – GPS o'r holl angorfeydd, yn astudio rhai o'r mathau o angorfeydd a maint y creithiau. Astudiaethau pysgod i ddarganfod pa rywogaethau oedd yn defnyddio'r gwely. Casglu gwybodaeth am lwybr snorcelu. Roedd SEACAMS angen corff nad oedd yn gorff cyhoeddus i arwyddo'r gwaith papur ar gyfer pob prosiect i'w galluogi hwy i gael cyllid. Ar gyfer y prosiect hwn, roedd yr

Ymddiriedolaeth Genedlaethol, *Llŷn Adventures* a *Waterline* yn bartneriaid arwyddol.

- Prosiect angori eco – roedd y prosiect yn ceisio addasu angorfeydd presennol i leihau'r effaith ar y morwellt. Nod hyn oedd bod mor rhad ac ymarferol â phosib. Yn ogystal roeddynt yn mynd i astudio gwahanol fathau o angori eco mewn mwy o fanylder a phenderfynu pa un fyddai'n gweithio orau ym Mhorthdinllaen.
- Roedd nifer o brosiectau myfyrwyr yn cychwyn yn fuan yn benodol i gynnal astudiaethau isfilodol a physgota.
- Roedd y prosiect yn gobeithio sefydlu prosiect plymio gwirfoddol i fapio'r angorfeydd gan anelu i bennu'r math o angorfa, ei lleoliad a maint y graith, os byddai'n bresennol.
- Ar hyn o bryd roedd y prosiect yn ystyried yr opsiynau rheoli a ganlyn:
  - Parth angori gwirfoddol
  - Y defnydd o angorfeydd eco / addasiadau ar gyfer angorfeydd presennol
  - Llwybr snorcelu

### **Prosiect Cranc Manegog Tseiniaidd**

Roedd y prosiect hwn yn edrych ar y paramedrau amgylcheddol oedd yn hanfodol i'r cranc fyw mewn amgylchedd afon. Gellid defnyddio hyn fel teclyn i bennu pa afonydd y gallai'r cranc manegog eu meddiannu o bosib. Roedd y cranc manegog yn rhywogaeth anfrodorol hynod ymledol oedd eisoes wedi meddiannu'r afon Dyfrdwy ac roedd un gwryw byw wedi'i ddarganfod yn afon Conwy. Roedd cofnodwyr data yn mynd i gael eu gosod yn fuan yn afonydd Dyfrdwy, Conwy a Mawddach.

### **Ariannu'r ACA**

Roedd ariannu yn ddiogel tan 2013. Roedd AH hefyd wedi gwneud cais am arian gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn ar gyfer y tair blynedd nesaf.

## **5 Parthau Cadwraeth Morol Lefel Gwarchodaeth Uchel (PCMgu)**

Rhoddodd AH amlinelliad o amcanion yr eitem agenda hon:

- Cyflwyniad byr i'r ymgynghoriad PCMgu gan AH
- Cyfle i ofyn cwestiynau / rhoi barn

Nododd AH ychydig o bwyntiau cyn y cyflwyniad i'r PCMgu:

Nododd AH ei bod wedi siarad â nifer o aelodau'r grŵp ac roedd yn gwerthfawrogi eu sylwadau. Awgrymodd AH y dylai'r Grŵp Llywio gyflwyno ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad hwn. Gofynnodd AG i'r grŵp gadw hyn mewn cof yn ystod yr eitem hon a gallai'r grŵp bennu camau gweithredu ar ddiwedd yr eitem.

Nododd AH bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod gan mai eu hymgyngoriad hwy ydoedd, ond bu iddynt wrthod. Ers hynny roedd Cyngor Gwynedd wedi siarad â Diana Reynolds a dywedodd hi nad oedd ganddynt ddigon o staff i anfon rhywun i'r cyfarfod. Roedd AH hefyd wedi gofyn am fwy o wybodaeth, yn cynnwys cyflwyniadau neu ddogfen grynoded gan eu bod wedi mynychu cyfarfodydd eraill ond dywedasant mai'r ddogfen ymgynghori yn unig oedd ar gael.

Yn absenoldeb cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru cafwyd crynodeb ar yr ymgynghoriad gan AH a nododd bod yr eirfa a ddefnyddiwyd wedi dod yn syth o'r ddogfen ymgynghori.

### **Cyflwyniad i'r PCMgu:**

- Roedd gweinyddiaethau'r DU wedi ymrwymo i gwblhau rhwydwaith ecolegol gydlynol o ardaloedd morol gwarchodedig (AMG). Byddai'r rhwydwaith yn offeryn allweddol i gyfrannu at gyrraedd statws amgylcheddol da dan Gyfarwydddeb y Fframwaith Strategaeth Forol.
- Byddai cyfraniad Cymru i rwydwaith ehangach y DU yn cynnwys Ardaloedd Morol Ewropeaidd (ACA ac AGA), SoDdGA rhyngliffol, safleoedd Ramsar rhyngliffol, y Warchodfa Natur Forol yn Sgomer ynghyd â'r Parthau Cadwraeth Morol (PCM) newydd. Roedd yng Nghymru nifer o'r safleoedd hyn yn barod a oedd yn cynnwys oddeutu 75% o'r morlin a 36% o foroedd tiriogaethol. Y bwriad oedd i'r PCM ychwanegu at y safleoedd presennol.
- Roedd Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn rhoi pwerau ac offerynnau newydd i Weinidogion Cymru i wella'r ffordd yr oedd amgylchedd morol Cymru'n cael ei warchod a'i reoli. Roedd hyn yn cynnwys mecanwaith newydd ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth forol drwy ddynodi PCM.
- Dull Llywodraeth Cymru wrth ddefnyddio'r grym PCM newydd oedd ychwanegu at yr ACM presennol yng Nghymru drwy gael nifer cyfyngedig o safleoedd wedi'u gwarchod ar lefel uchel. Er enghraifft roedd Lloegr yn dilyn trywydd gwahanol ac yn clustnodi PCM yn ogystal â PCM wedi'u gwarchod ar lefel uchel gan nad oedd digon o ACAau.
- Y bwriad oedd galluogi safleoedd i weithredu mewn modd mor naturiol â phosib i wireddu tri nod:
  - Cyfrannu at adfer yr ecosystem
  - Cyfrannu at wydnwch yr ecosystem
  - A datblygu ein dealltwriaeth o swyddogaeth naturiol yr ecosystem
- Yn y safleoedd gwarchodaeth lefel uchel hyn, ni fyddai yna unrhyw echdynnu na ddyddodi a byddai gweithgareddau a allai niweidio neu aflonyddu'n cael eu hasesu a'u rheoli.
- Yna cyfeiriodd AH at dudalennau yn y ddogfen a oedd yn rhoi enghreifftiau o weithgareddau echdynnu, dyddodi, niweidio ac aflonyddu.
- Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 10 safle posib, ar y sail bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu dynodi tri neu bedwar safle ar y mwyaf. Nid oedd ffiniau'r safleoedd hyn wedi'u cadarnhau a gellid eu newid.
- Roedd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r prosiect hwn drwy dri grŵp allweddol:
  - Y Grŵp Llywio i lywio'r holl broses, gwneud penderfyniadau yng nghamau allweddol y prosiect ac yn y pendraw, gwneud yr argymhelliad terfynol i Weinidogion Cymru.
  - Y Grŵp Ymgynghorol Technegol, grŵp o arbenigwyr technegol yn ymdrin â materion ecolegol, cymdeithasol ac economaidd ac yn darparu cyngor technegol i'r Grŵp Llywio.
  - Y Grŵp Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a Dinasyddion.
- Ar gychwyn y broses hon fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar yr arweiniad a roddwyd er mwyn dewis safle ar gyfer y broses hon. Dewiswyd y gyfres gynaf o safleoedd ar sail fiolegol yn unig. Rhoddwyd sgôr i bob cynefin ac roedd gan y mwyafrif o'r cynefinoedd sgôr o 1 h.y. nid oedd y mwyafrif o gynefinoedd wedi'u blaenoriaethu mewn unrhyw ffordd. Felly'r safleoedd a gafodd sgôr uchel oedd y rhai a oedd â nifer uchel o gynefinoedd mewn ardal gymharol fach. Byddai camau dilynol yn ystyried nodweddion economaidd-gymdeithasol.
- Yna cyfeiriodd AH at yr amserlen yn y ddogfen.
- Roedd y dull o adnabod PCMgu yn wahanol i sut yr arferwyd adnabod ardaloedd gwarchodedig yn y gorffennol. Roedd y canolbwynt yn y cyswllt hwn ar gyfraniad y safle cyfan i'r amgylchedd morol, a'i gyfraniad at adfer yr ecosystem, a gwell gwydnwch yn

hytrach nag ar warchod enghreifftiau penodol o amgylcheddau o ansawdd. Roedd y safleoedd wedi'u dethol ar sail heterogenedd eu cynefinoedd (h.y. nifer fawr o gynefinoedd mewn ardal gweddol fach).

- Dangosodd AH fapiau o'r safleoedd arfaethedig oedd yn ymwneud â'r ACA.

Cafodd y grŵp drafodaeth ar yr ymgynghoriad a'r syniad o PCMgu. Noder y gwnaed y pwyntiau canlynol gan aelodau unigol ac nad oeddynt yn cyfleu barn y grŵp. Gwnaed y pwyntiau a'r sylwadau a ganlyn:

**GR** – Roedd angen ystyried yr effaith ar yr economi a bioamrywiaeth. Nid oedd llawer o fanteision i'w gweld. Er mwyn gwneud i safleoedd fel hyn weithio roedd angen pobl leol i fuddsoddi. Ymddengys ei bod yn od i beidio â chynnwys rhannau mawr o'r ACA.

**BL** - Llawer o aelodau yn defnyddio ac yn parchu'r môr a hoffai llawer ohonynt ddysgu mwy am yr amgylchedd morol. Roedd y ffaith eu bod wedi ystyried materion economaidd-gymdeithasol lefel uchel yn unig yn achosi pryder. Roedd yn fygythiad i fasnachwyr morol ym Mhwlheli. Roedd yn ymddangos bod yr ymgynghoriad hwn yn gynamserol o ystyried bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgynghori ar ddogfennau Cymru Fyw ac Un Corff. Nid oedd rhesymeg i weld.

**MP** - yn cytuno nad oedd yn gwneud synnwyr i ymgynghori ar hyn heb wybod canlyniad yr ymgynghoriadau ar Gymru Fyw ac Un Corff. Roedd hyn yn fygythiad difrifol i'r economi.

**MB** – Byddai pen Sarn Badrig yn gwneud PCMgu da.

**SW** – Pe bai ochr ogleddol y Llŷn yn cael ei ddynodi, byddai 14 o bysgotwyr allan o fusnes. Roedd tua 40 o bysgotwyr yn defnyddio cyfarpar pysgota statig o amgylch y Llŷn. Roeddynt yn cyfrannu tuag at ddiwydiant y Llŷn. Roedd cychod a oedd yn llai na 10m o amgylch y Llŷn yn gynaliadwy. Roedd y wyddoniaeth tu ôl i'r dynodiadau hyn yn wan. Roedd y fantais yn fach o gymharu â'r golled. Roedd angen ystyried dadleoli offer. Gallai rhai pysgotwyr ddefnyddio rhwydi a fyddai'n achosi mwy o niwed i'r amgylchedd. Roedd y broses hyd yn hyn wedi bod yn ysgytiol. Heb glywed am unrhyw un oedd yn cefnogi'r safleoedd hyn. Ugain o swyddogion gorfodaeth oedd gan Lywodraeth Cymru i ymdrin â Chymru gyfan. Nid oedd mwy o arian yn y pot felly sut oedd modd gorfodi'r safleoedd hyn? Nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu ymdopi â'r materion presennol, gan gynnwys pysgota cregyn bylchog â rhwyd yn anghyfreithiol. Ar hyn o bryd roedd defnyddwyr lleol yn gweithredu fel llygaid a chlustiau ar y safle. Roedd angen gwarchod Cymru gyfan nid ardaloedd bach yn unig.

**GR** – Roedd gan y Llŷn lawer o rywogaethau ac wedi gweithio ochr yn ochr â'r diwydiant pysgota. Byddai rhai rhywogaethau yn ffynnu ond byddai rhai eraill yn dioddef. Felly gallai'r sefyllfa droi allan yn waeth.

**MP** – Hwn oedd y tro cyntaf i'r gogledd fod â mwy na'r de.

**NT** – Nid oedd CCGC yn bresennol i amddiffyn yr ymgynghoriad. Roedd y ffordd y deliwyd â hyn yn bechod. Hwn oedd y cyfle i fynegi barn. Nid oedd ffiniau wedi'u dynodi. Roedd llawer o dystiolaeth ledled y byd yn profi bod yr ardaloedd hyn yn gweithio. Fe allai poblogaethau pysgod gynyddu. Ond roedd cefnogaeth y cyhoedd yn hanfodol. Pe byddem yn colli cynnyrch lleol byddai ein ôl-troed carbon yn cynyddu.

**IR** – Nid oedd yr arian ar gyfer offer prosesu yn y Llŷn a'r ymgynghoriad PCMgu yn cyd-fynd â'i gilydd. Pa effaith fyddai hyn yn ei gael ar y môr?

**CE** – Yn falch bod CCGC wedi argymhell ymgynghoriad. Flamborough wedi bod yn weithredol am ychydig o flynyddoedd yn unig felly nid oedd modd tynnu casgliadau o hynny. Roedd y mwyafrif o'r enghreifftiau yn cyfeirio at foroedd trofannol, nid oedd modd cymharu ardaloedd tymherus a throfannol. Roedd papur ar gael ar effeithiau gwarchodfa natur forol Lundy. Roedd naw mlynedd yn gyfnod gweddol fyr. Roedd y darganfyddiadau hyd yn hyn yn dangos bod yr effaith ar rywogaethau digoes ac anfasnachol yn fach iawn. Nodwyd bod llai o grancod nofio melfed yn bodoli. Roedd tystiolaeth i dangos y gallai poblogaethau pysgod gynyddu ond roedd y dystiolaeth hon yn deillio o foroedd trofannol.

**NT** – Roedd taflen ar gael o'r enw *The Science of Marine Reserves*.

**CE** – Roedd y daflen hon yn edrych fel pamffled gwerthu.

**NW** - Byddai'r ardaloedd hyn yn gweithredu fel parthau cyfeirio er mwyn gweld beth fyddai'n digwydd petai system yn cael ei gadael i ddatblygu'n naturiol. Roedd yn werth cael yr ardaloedd hyn. Roedd manteision posib e.e. twristiaeth, bioamrywiaeth, pysgodfeydd.

**MB** – Ar ôl 40 mlynedd o ddeifio, roedd angen yr ardaloedd hyn. A oedd yr ardaloedd hyn wedi'u cadarnhau neu a oedd modd awgrymu ble dylent fod? Nid oedd neb yn rheoli adfeilion a warchodir.

**RQ** – A oedd modd eu cyfeirio hwy tuag at safleoedd penodol? Felly efallai y gallem gymryd un o'r pedwar o amgylch y Llŷn.

**LK** – Rwyf wedi gweld ardaloedd lefel gwarchodaeth uchel yn yr ardaloedd trofannol a thymherus. Roeddynt yn anrhagweladwy. Roedd modd darganfod tystiolaeth i gefnogi'r naill ochr. Roedd llawer o bethau nad ydym yn eu gwybod am y modd yr oedd ecosystemau morol yn gweithredu. Gallai safle heb ei chyffwrdd ddangos i ni sut y dylid rheoli'r amgylchedd morol. Roedd newidiadau mawr ar y gweill o ran newid hinsawdd. Roeddem angen i ardaloedd weithio'n dda i alluogi'r amgylchedd morol i barhau i ddarparu gwasanaethau ecosystem. Roedd angen i ni drafod rôl posib safleoedd fel hyn a pheidio ag anghofio amdanynt yn syth.

**LK** – Nid oedd y broses o ddewis safleoedd yn cyd-fynd â'r hyn a ddywedodd CCGC. Roedd CCGC yn cynghori y dylai'r broses gael ei harwain gan fudd-ddeiliaid o'r cychwyn. Nid oedd Llywodraeth Cymru yn hapus am hyn oherwydd y gost. Roedd wedi bod yn broses penodedig. Dylai'r cyhoedd fod wedi cael y cyfle i fynegi barn ar leoliad y safleoedd. Roedd yn bwysig iddynt gynnig awgrymiadau a allai fod yn fanteisiol, roedd modd cynnig sylw neu awgrym ar unrhyw agwedd.

**SW** – Roedd prosiect werth £2.2 miliwn yn weithredol a oedd yn ymwneud ag asesiad pysgota a stoc. Byddai'r prosiect hwn yn edrych ar broblemau. Roedd pysgodfeydd yn ased. Roedd y safleoedd yn fach ond roeddynt yn weddol fawr ar y Llŷn. Roedd angen ymchwilio ymhellach. Dylai Llywodraeth Cymru fod wedi ymgysylltu'n gynt.

**DavR** – Rydym wedi cyrraedd cam 4 yn barod. Roedd Llywodraeth Cymru yn anfon nifer o ymgynghoriadau allan. Nid oeddwn yn casáu parthau ‘no take’. Ond roedd wedi bod yn siomedig.

**DG** - Roedd yr uned economi a Chyngor Gwynedd yn cefnogi defnyddwyr y safle. Roedd angen i ni gydnabod yr effaith ar yr economi. Roedd angen ffigyrau.

**RS** – Roedd pryder am dwristiaeth, pysgotwyr a physgotwyr gwialen pe bai hyn yn bwrw ymlaen. Roedd angen ystyried dadleoli a’r effaith allai hyn gael ar nodweddion yr ACA.

**IE** – Roedd rhywbeth i’w weld yn hyn. Roedd potensial am dwristiaeth eco. Nid oedd pobl wedi ymdrin â hyn yn y ffordd gywir. Roedd yn ymdrin â phethau diangen e.e. cerdded. Dylent fod wedi cael gwared ar y pethau gwirion.

**BMJ** – Byddai’r cyfyngiadau yn llawer llymach. Ni fyddai modd rheoli’r ardaloedd. Nid oedd modd cyfri’r cychod / gyrwyr. Y budd-ddeiliaid gorau i ofalu am yr ardal oedd y pysgotwyr. Roedd y difrod mwyaf yn cael ei achosi gan gychod alltraeth mawr. Nid oedd hyn yn cael ei blismona. Roedd materion mawr angen sylw gyntaf.

**MB** – Roedd Sarn y Bwlch yn 6m o hyd ac roedd llawer o bysgod yno. Gallai hyn wneud PCMgu da. Yn dechnegol dan y mesur morol byddai angen trwydded i adeiladu castell tywod.

**NT** – Roedd angen cefnogaeth pysgotwyr a phobl leol neu ni fyddai modd rheoli’r ardaloedd. Mewn rhai gwledydd Ewropeaidd roedd y pysgotwyr wedi gofyn am dri safle. Roedd angen cofio ein bod wedi colli rhai rhywogaethau o amgylch y Llŷn, megis cimwch coch, pennog a chath fôr. Nid oedd y môr yn iawn fel ag yr oedd. Roedd pysgota o amgylch y Llŷn yn dda ac yn gynaliadwy. Ond roedd manteision mawr i’w cael o ganlyniad i’r ardaloedd hyn. Ddim yn meddwl y byddai hyn yn bosib drwy’r ymgynghoriad hwn ond ni ddylai’r syniad hwn fynd yn angof.

**BL** – Yn ôl at yr ACA, roedd llawer o ddulliau o reoli morol. Beth oedd wedi’i gyflawni? Roedd y Grŵp Cyswllt yn gweithio. Roedd wedi bod yn bositif. Roedd gwersi wedi’u dysgu o ganlyniad i Brosiect ACA morol y DU. Roedd angen archwilio’r ffordd orau o wneud pethau.

**CR** – Roedd llawer o rywogaethau yn dirywio e.e. gylfinir, cornchwiglen, draenog, grugiar ac ati. Ond roedd angen cydbwysedd.

**LK** – Roedd rheoli’r ACA yn ceisio defnyddio dull gwahanol i’r dull o warchodaeth ddwys. Roedd yr ACA yn un dull ond roedd yn gyfyngedig. Roedd y fframwaith deddfwriaethol yn gwarchod y nodweddion yn unig.

**MP** – Nid oedd yn fater o ddweud na ond roedd angen rhoi rhesymeg. Pwy fyddai’n darllen drwy’r ymatebion pe na bai gan Lywodraeth Cymru ddigon o staff? Sut fyddai’n cael ei reoli fel ymgynghoriad?

**CR** – Cafwyd trafodaeth dda. Roedd llawer o bryder ynglŷn â bywoliaethau.

**MP** – Oedd unrhyw un yn hapus gyda’r ymgynghoriad?

Dim ymateb.



Nododd y grŵp eu bod yn siomedig nad oedd neb o Lywodraeth Cymru wedi mynychu.

**RQ** – Nid oedd biosffer Dyfi wedi'i gynnwys

**Gweithredu:** *AH i baratoi ymateb ar ran y grŵp a'i anfon ymlaen i dderbyn sylwadau.*

## **6 Unrhyw fater o bryder neu ddiddordeb**

Dim.

## **7 Amser a dyddiad y cyfarfod nesaf**

I'w gadarnhau